

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i'r Panel Arbenigol ar ddiwygio etholiadol y Cynulliad

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau a rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei hygrededd.

Ry'n ni'n falch o allu ymateb i gwestiynau'r Panel ac yn edrych ymlaen at weithio mwy gyda'r Panel wrth i broses diwygio etholiadol y Cynulliad fynd yn ei flaen.

1. A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos i ba raddau, os o gwbl, y mae'r ffaith bod ffiniau etholiadol awdurdodau lleol, seneddau / cynulladau rhanbarthol a seneddau cenedlaethol yn cyd-ffinio (neu fel arall) yn effeithio ar y cyhoedd? Er enghraifft, a yw'n effeithio ar eu dealltwriaeth, eu perthynas â'u cynrychiolwyr, neu eu hymgysylltiad â gwleidyddiaeth?

a) Nid yw'r Comisiwn Etholiadol wedi comisiynu unrhyw ymchwil ar effaith cyd-ffinio (neu fel arall) ffiniau etholiadol ar y cyhoedd.

Fodd bynnag, yn 2003/4 fe wnaethom baratoi adroddiad ar gylchred etholiadau yn Lloegr, ac efallai bod y panel am ystyried yr adroddiad yma fel rhan o gasglu tystiolaeth:

http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/electoral_commission_pdf_file/0015/16125/cycleoflocalelectfinal_11595-9056_ENSW.pdf

Fe wnaethom ddarganfod bryd hynny bod cael patrwm anghyson ac aneglur o etholiadau rhwng gwahanol awdurdodau lleol, gan gynnwys rhwng awdurdodau lleol oedd yn ffinio'i gilydd, yn arwain at ddryswch a chamddealltwriaeth gan bleidleiswyr ynghylch y cyfleoedd oedd ar gael iddynt gymryd rhan yn yr etholiadau lleol. Fe wnaethom argymhell y dylai Lloegr symud i batrwm cyson o etholiadau cyngor cyfan, fel oedd yn bodoli eisoes yng Nghymru a'r Alban.

Mae'n ymddangos bod lefel isel o ddealltwriaeth y cyhoedd o'r gwaith a wnaed gan wahanol gyrff gweinyddol, nid ydym yn ymwybodol o dystiolaeth sy'n cysylltu hyn â ffiniau.

b) Y Comisiwn ar Wahaniaethau Ffiniau a Systemau Pleidleisio - sefydlwyd adroddiad Arbuthnott yn 2006 i edrych ar y canlyniadau o gael pedair system bleidleisio wahanol yn yr Alban a gwahanol ffiniau rhwng San Steffan a Holyrood ar gyfranogiad pleidleiswyr.

Ar ôl gofyn am farn ar ganlyniad cael ffiniau gwahanol rhwng Etholaethau San Steffan a Senedd yr Alban, darganfu'r Comisiwn bod yr unigolion a gyfwelwyd yn y grwpiau ffocws â fawr ddiddordeb yn lleoliad ffiniau a nodwyd nad oedd hyn yn fater fyddai'n eu hanghymell rhag pleidleisio.

Gan nad yw'r Comisiwn ar Wahaniaethau Ffiniau a Systemau Pleidleisio bellach yn bodoli, mae dod o hyd i wybodaeth ynghylch yr adroddiad ar-lein yn peri problemau. Efallai y byddai'r panel yn dymuno cysylltu â Swyddfa'r Alban, gan efallai fod ganddynt gofnodion hanesyddol.

2. A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith ymchwil ar effaith gymharol defnyddio'r un ffiniau etholiadol ar gyfer seneddau / cynullïadau rhanbarthol ag y defnyddir yn ffiniau ar gyfer llywodraeth leol ac, o ganlyniad, ffiniau seneddol cenedlaethol?

Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn ymwybodol o, ac nid yw wedi comisiynu ymchwil ar effaith gymharol defnyddio'r un ffiniau etholiadol.

**3. Effaith ar bleidiau, aelodau a chynrychiolwyr etholedig
A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith a gynhaliwyd ar yr effaith y mae cydffinio (neu fel arall) yn ei chael ar bleidiau gwleidyddol, eu haelodau a'u cynrychiolwyr etholedig?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw waith penodol sydd wedi'i wneud.

4. Pa effaith, os o gwbl, a gafodd datgysylltu etholaethau Senedd yr Alban oddi wrth etholaethau seneddol San Steffan ar:

a. cynnal a gweinyddu etholiadau yn yr Alban?

Nid ydym wedi nodi unrhyw newidiadau i gynnal a gweinyddu etholiadau yn yr Alban. Fodd bynnag fe wnaeth datgysylltu ffiniau yn yr Alban, olygu cynnydd mewn gweithio rhwng cynghorau yn yr ardaloedd a effeithiwyd a chreu rhwydweithiau a systemau cyfathrebu clir i hwyluso'r broses gynllunio.

b. pleidiau gwleidyddol yn ymgeisio mewn etholiadau yn yr Alban?

• Yn yr Alban, fe wnaeth datgysylltu ffiniau yn yr Alban olygu bod yn rhaid i'r pleidiau gwleidyddol addasu. Fe wnaeth pobl plaid ailstrwythuro ei threfniadau llywodraethu mewnol a chreu strwythur yn addas i'w hanghenion unigol. I gael mwy o wybodaeth ar sut wnaeth hyn weithio'n ymarferol, ry'n ni'n argymhell bod y Panel yn siarad yn uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol yr Alban. Mae'r manylion cyswllt isod:

- Plaid Genedlaethol yr Alban - Gordon Lamb House, 3 Jackson's Entry, Edinburgh EH8 8PJ. Swyddog - Colin Beattie
- Scottish Labour Party - Scottish Labour Party, 290 Bath Street Glasgow G2 4RE. Swyddog - Brian Roy
- Scottish Liberal Democrats - Scottish Liberal Democrats, 4 Clifton Terrace, Edinburgh, EH12 5DR. Swyddog - Adam Stachura
- Scottish Green Party - National Headquarters, Scottish Green Party, Bonnington Mill, 72 Newhaven Road, Edinburgh, EH6 5QG. Swyddog - Mary Johnston
- Scottish Conservative Party - Scottish Conservative Central Office, 67 Northumberland Street, Edinburgh, EH3 6JG. Swyddog - Matthew Edmonds

Wrth ystyried, dylai'r panel ystyried darn penodol o ymchwil a gomisiynwyd gan adroddiad Arbuthnott ar effaith tebygol ffiniau nad ydynt yn cydffinio yn yr Alban - [The Local Work of Scottish MPs and MSPs: Effects of Non-coterminous Boundaries and AMS](#)

c. pobl yr Alban?

Fel soniwyd yn flaenorol, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod newid ffiniau wedi cael effaith ar y nifer o bleidleisiodd mewn etholiadau dilynol yn yr Alban.